



Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru – Gorchymyn Datblygu Arbennig 2021

Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth
BCP21-002-03-00

Medi 2021
Cyfrinachol

Mott MacDonald
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT
Y Deyrnas Unedig

T +44 (0)29 2046 7800
mottmac.com

Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru – Gorchymyn Datblygu Arbennig 2021

Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth
BCP21-002-03-00

Medi 2021
Cyfrinachol

Cofnod Dyroddiad ac Adolygu

| Adolygiad | Dyddiad | Dechreuwr | Desg Talu | Cymeradwywr | Disgrifiydd |
|-----------|----------|-----------|-----------|-------------|---|
| P1 | 07.07.21 | IG-D | KL | JW | Cyflwyniad drafft ar gyfer sylwadau gan y cleient |
| A | 30.07.21 | IG-D | KL | JW | Cyflwyniad terfynol ar ôl cael sylwadau gan y cleient |
| B | 28.09.21 | SC | RM | JB | Diwygiad yn dilyn newid i'r Cyfyngiad SDO arfaethedig |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Cyfeirnod y Ddogfen: BCP21-002-03-00 | B

Dosbarth Gwybodaeth:Diogel

Cyhoeddwyd y ddogfen yma yn unig ar gyfer y parti a wnaeth ei gomisiynu ac am bwrpasu neilltuol yn ymwneud â'r prosiect sydd wedi ei gapsiyu uchod. Ni ddylir ddibynnu arno gan unrhyw barti arall na'i ddefnyddio am unrhyw bwrpas arall.

Ni dderbyniwn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniad o'r ddogfen yma'n cael ei dibynnu arni gan unrhyw barti arall, neu'n cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall, neu'n cynnwys unrhyw wall neu ddiffyg sydd oherwydd gwall neu ddiffyg yn y data a ddarperir i ni gan bartion eraill.

Mae'r ddogfen yma yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo perchnogaeth deallusol. Ni ddylid ei dangos i bartion eraill heb ein caniatad ni ac oddi wrth y parti a wnaeth ei chomisiynu.

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb gweithredol | 1 |
| 1 Cyflwyniad | 2 |
| 2 Methodoleg | 4 |
| 2.1 Ymchwil wrth y Ddesg | 4 |
| 2.2 Arolwg o'r Safle | 4 |
| 2.3 Ardal yr Astudiaeth | 4 |
| 2.4 Ymgynghori | 4 |
| 2.5 Arfarniad | 5 |
| 2.6 Rhagdybiaethau a Chyfyngiadau | 5 |
| 3 Gwaelodlin | 7 |
| 3.1 Asedau Dynodedig | 7 |
| 3.1.1 Henebion Cofrestredig | 7 |
| 3.1.2 Adeiladau Rhestredig | 11 |
| 3.2 Asedau Heb eu Dynodi | 12 |
| 3.3 Archaeoleg | 13 |
| 4 Cyfyngiadau Dylunio yn gysylltiedig â Threftadaeth Ddiwylliannol | 15 |
| 4.1 Cyfyngiadau Treftadaeth Ddiwylliannol | 15 |
| 5 Arfarniad o Effeithiau | 18 |
| 5.1 Adeiladu | 18 |
| 5.2 Gweithredu | 18 |
| 6 Casgliad | 21 |
| A. Rhestr Asedau Treftadaeth | 23 |
| A.1 Asedau Treftadaeth Dynodedig | 23 |
| A.2 Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi | 25 |
| B. Ffigur yr Asedau Treftadaeth a Drafodwyd | 28 |

Crynodeb Gweithredol

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Mott MacDonald ar ran Llywodraeth Cymru (LIC). Mae'n darparu arfarniad o'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig ym Mhlot 9 Parc Cybi, Caergybi (y'i gelwir 'y safle' o hyn ymlaen), ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau (BCP) parhaol (y'i gelwir 'y cynllun' o hyn ymlaen). Mae'r adroddiad hwn yn ategu, ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i, Bennod 3.3 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00)¹. Mae ymgynghori â Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd wedi cynorthwyo â llunio'r adroddiad hwn.

Ar hyn o bryd, mae'r safle'n gyfleuster dros dro ar gyfer stacio Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) ac yn ardal o dir moel yn ardal rannol wledig Parc Cybi. Nid oes unrhyw asedau dynodedig o fewn y safle. Mae chwe ased treftadaeth dynodedig o fewn 1.5km o'r safle, sef tair heneb gofrestredig, un adeilad rhestredig gradd II* a dau adeilad rhestredig gradd II. Yr agosaf o'r asedau hyn yw Siambr Gladdu gofrestredig Trefignath, sydd tua 40m i'r gogledd-ddwyrain o'r safle, a Maen Hir cofrestredig Tŷ Mawr, sydd sut 490m i'r gogledd-orllewin o'r safle. Mae'r ddwy heneb gofrestredig hyn yn rhannu perthynas weledol bwysig â'i gilydd, gan adlewyrchu tremlin o'r siambr gladdu, drwy'r maen hir i Fynydd Tŵr. Mae'n debygol fod y dremlin hon wedi dylanwadu ar y lleoliad a ddewiswyd ar gyfer y maen hir, sy'n dyddio o gyfnod fymryn yn hwyrach, ac mae'n bosibl yr oedd yn gysylltiedig â llwybr yr haul.

Mae Ardal Ddatblygadwy'r safle eisoes wedi cael ei datblygu ac archwiliwyd yr olion archaeolegol a'u cofnodi yn ystod dwy raglen werthuso archaeolegol ar wahân. Tynnwyd olion archaeolegol oddi yno yn ystod y broses hon, felly nid oes potensial am archaeoleg anhysbys o fewn yr Ardal Ddatblygadwy.

Nodwyd 60 o asedau heb eu dynodi o fewn 500m o'r safle, gan gynnwys tri o fewn y safle, y mae 59 ohonynt yn gysylltiedig ag olion archaeolegol claddedig. Tynnwyd y mwyafrif o'r rhain, gan gynnwys y rheiny o fewn y safle, oddi yno o ganlyniad i ymchwilio archaeolegol blaenorol. Yn achos y rheiny sydd yn eu lle o hyd yn ardal yr astudiaeth, nid yw eu lleoliadau'n cyfrannu at eu gwerth (arwyddocâd) treftadaeth. Yr eithriad yw olion sy'n sefyll Siambr Gladdu Neolithig debygol Trearddur, sydd tua 300m i'r de o'r safle. Mae cyflwr yr ased hwn yn waeth o lawer na Siambr Gladdu gofrestredig Trefignath, sy'n cyfrannu at ei statws heb ei ddynodi.

Byddai adeiladu'r cynllun yn arwain at effaith andwyol ar Heneb Gofrestredig Siambr Gladdu Trefignath, o ganlyniad i newid o fewn ei lleoliad. Ni fyddai'r effaith hon yn effaith arwyddocaol. Gan fod ymchwiliadau archeolegol eisoes wedi'u cynnal ar y safle, ni fyddai adeiladu'r cynllun yn arwain at unrhyw effaith ar olion archaeolegol. Ni ragwelir effaith ar unrhyw ased treftadaeth arall o ganlyniad i adeiladu'r cynllun, gan nad yw eu lleoliadau yn ymestyn i'r safle ac ni fyddai adeiladu'n newid eu lleoliadau mewn ffordd sy'n effeithio ar eu gwerth treftadaeth.

Byddai gweithredu'r cynllun yn arwain at effaith andwyol ar Siambr Gladdu Trefignath a Maen Hir Tŷ Mawr, y ddau ohonynt yn henebion cofrestredig. Byddai ei weithredu hefyd yn cael effaith andwyol ar Siambr Gladdu Trearddur, sydd heb ei ddynodi. Byddai hyn o ganlyniad i newid yn lleoliad yr ased. Ni fyddai'r effeithiau hyn yn arwain at effaith arwyddocaol. Ni ragwelir effaith ar unrhyw ased treftadaeth arall o ganlyniad i weithredu'r cynllun.

Nid oes unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar asedau treftadaeth ddiwylliannol o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r cynllun. Nid yw'r adroddiad hwn wedi nodi unrhyw effeithiau tebygol eraill gan y cynllun ar dreftadaeth ddiwylliannol.

¹ Mott MacDonald (2021) Adroddiad ar yr Amgylchedd Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru. Medi 2021. Rhif y Ddogfen: BCP21-002-00-00

1 Cyflwyniad

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Mott MacDonald ar ran LIC. Mae'n darparu arfarniad o'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol yn gysylltiedig â'r cynllun arfaethedig, sy'n cynnwys datblygu Safle Rheoli Ffiniau parhaol ym Mhlot 9 Parc Cybi, Caergybi, Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ategu, ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i, Bennod 3.3 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00).

Mae'r safle'n cynnwys Plot 9, Parc Cybi, Caergybi. Ar hyn o bryd, defnyddir hanner dwyreiniol Plot 9 yn gyfleuster stacio brys ar gyfer cerbydau HGV; mae hynny o dan ganiatâd cynllunio dros dro ar hyn o bryd ac nid yw'n gysylltiedig â'r cynllun arfaethedig sy'n destun yr adroddiad hwn. Mae gweddill y safle, ac eithrio brigiad creigiog heb ei ddatblygu yn y cynefin ymylol ar y dwyrain pell, yn foel o bridd a brig (gweler Adran 3.3 am fanylion pellach). Dangosir safle'r lleoliad yn Ffigur 1.1 isod ac fe'i disgrifir hefyd yn Adran 2.2 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00).

Ffigur 1.1: Ffin Ddangosol y Safle



Ffynhonnell: Ffynhonnell: Esri, Maxar, GeoEye, Earthstar Geographics, CNES/Airbus DS, USDA, USGS, AeroFRID, IGN, a Chymuned Defnyddwyr GIS Esri, HERE, Garmin, © Cyfranwyr OpenStreetMap, a chymuned defnyddwyr GIS

Ceisir cymeradwyaeth ar gyfer Amlen Gydsynio, yn amlinellu terfynau asesedig mwyaf y datblygiad, gan felly ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd yn nyluniad terfynol y cynllun. Aseswyd yr amlen i benderfynu a fyddai unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol o ganlyniad i

adeiladau a gweithredu'r BCP. Disgrifir y dull hwn ymhellach yn yr Adroddiad Cynllunio (BCP21-006-02-00)².

Darperir disgrifiad y cynllun yn Adran 2.3 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00). Byddai'r BCP yn cynnwys cyfleusterau archwilio ar gyfer nwyddau fel anifeiliaid, planhigion, cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid, bwyd risg uchel a phorthiant nad yw'n dod o anifeiliaid. Byddai'r cyfleuster ar waith 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos ac, yn yr achos gwaethaf, byddai'n cael ei ddefnyddio gan hyd at 41 cerbyd HGV mewn unrhyw gyfnod 24 awr; fodd bynnag, byddai hyd at 25 i 30 cerbyd HGV ar gyfartaledd yn defnyddio'r safle.

Mae'r Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00) yn nodi unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol niweidiol neu fuddiol o ganlyniad i'r cynllun a, lle y bo'n berthnasol, mae'n amlinellu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn nyluniad y cynllun a'i ddull cyflawni i osgoi, dileu neu leihau unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig â Phennod 3.3 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd, (BCP21-002-00-00) sy'n crynhoi effaith y cynllun ar asedau treftadaeth ddiwylliannol.

² Mott MacDonald (2021) Adroddiad Cynllunio Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru. Medi 2021. Rhif y Ddogfen: BCP21-006-02-00

2 Methodoleg

Mae'r adran hon yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad hwn.

2.1 Ymchwil wrth y Ddesg

Casglwyd y wybodaeth sylfaenol yn yr adroddiad hwn o'r adnoddau canlynol:

- Cadw, Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru³;
- Gwybodaeth am asedau treftadaeth heb eu dynodi, gan gynnwys Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd⁴;
- Adroddiad ar ymchwiliad archaeolegol blaenorol o fewn y safle, fel yr oedd ar gael adeg ysgrifennu, a ddarparwyd gan Brython Archaeology CYF a Jones Bros Ltd⁵; a,
- Gwybodaeth ychwanegol sydd ar gael ar-lein, gan gynnwys adroddiadau archaeolegol ychwanegol o fewn ardal yr astudiaeth, y cyfeirir atynt o fewn y testun, lle bo'n berthnasol.

2.2 Arolwg o'r Safle

Cynhaliwyd arolwg o'r safle gan weithwyr treftadaeth proffesiynol o Mott MacDonald ar 18 Mawrth 2021. Fe wnaeth hyn gynnwys cerdded y safle ei hun ac ardal yr astudiaeth, gan ganolbwyntio ar leoliadau'r asedau treftadaeth sy'n amgylchynu'r safle. Roedd diben yr arolwg hwn o'r safle fel a ganlyn:

- Llywio ardal briodol yr astudiaeth a'r fethodoleg briodol i'w defnyddio yn yr adroddiad hwn;
- Deall yn well amodau gwaelodlin y safle ac ardal yr astudiaeth;
- Deall yn well amodau gwaelodlin yr asedau treftadaeth o fewn ardal yr astudiaeth, gan gynnwys eu lleoliadau;
- Deall yn well pa asedau treftadaeth yr oedd potensial i'r cynllun effeithio arnynt, gan gynnwys trwy addasiad i'w lleoliadau; a,
- Llywio'r arfarniad o'r effeithiau yr ymgymerir ag ef yn yr adroddiad hwn.

2.3 Ardal yr Astudiaeth

Defnyddiwyd ardal astudiaeth 1.5 cilometr o ffin linell goch y safle ar gyfer asedau treftadaeth dynodedig, a 500m ar gyfer asedau treftadaeth heb eu dynodi. Ystyrir bod hyn yn gymesur â'r lleoliad rhannol wledig, dyluniad y cynllun a natur y dreftadaeth adeiledig a'r archaeoleg yn yr ardal.

2.4 Ymgynghori

Ymgymerwyd â chyfnod ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid perthnasol. I lywio'r gwaith o lunio'r adroddiad hwn, cynhaliwyd trafodaethau â chynrychiolwyr Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd (GAPS), fel a ganlyn:

- Trafodaeth rhwng arbenigwyr treftadaeth a'r amgylchedd Mott MacDonald a Cadw, 10 Mawrth 2021;

³ Cadw (2021) Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru>

⁴ Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://archwilio.org.uk/her/chi1/arch.html>

⁵ Brython Archaeology CYF (2020) Land to the South of Parc Cybi, Holyhead: Report on Archaeological Evaluation Trenching. B2015.EVAL.REP.01.

- Trafodaeth rhwng arbenigwyr treftadaeth a'r amgylchedd Mott MacDonald a GAPS, 11 Mawrth 2021;
- Trafodaeth rhwng arbenigwyr treftadaeth a'r amgylchedd Mott MacDonald, Cadw a GAPS, 7 Mai 2021; a,
- Gweithdy ymgynghori rhwng arbenigwyr treftadaeth a'r amgylchedd Mott MacDonald a Cadw, 10 Mehefin 2021.

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, trafodwyd y cyfyngiadau yn yr Amlen Gydsynio (gweler Adran 4). Mae'r Amlen Gydsynio yn gyfres o gyfyngiadau ar gyfer y dyluniad, y mae arbenigwyr disgyblaeth yr amgylchedd wedi penderfynu arnynt, y byddai'r dyluniad yn cael ei ddatblygu o'u mewn (gweler Adran 1 yr adroddiad hwn). Roedd cynrychiolwyr Cadw a GAPS yn cytuno'n gyffredinol ar y cyfyngiadau a gynigiodd arbenigwyr treftadaeth Mott MacDonald. Cafwyd cadarnhad o botensial archaeolegol absennol yr Ardal Ddatblygadwy (fel y'i trafodwyd yn Adran 3.3) gan GAPS trwy negeseuon e-bost ac fe'i cadarnhawyd mewn trafodaeth ar 7 Mai 2021. Cafwyd trafodaeth faith gyda Cadw ar yr effaith ar Siambr Gladdu Trefignath (gweler Adran 3.3.1) i lywio'r asesiad o effeithiau sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

2.5 Arfarniad

Mae'r dadansoddiad o arwyddocâd effeithiau yn yr adroddiad hwn yn ystyried gwerth asedau treftadaeth o ran treftadaeth a natur a maint yr effaith ar yr ased o ganlyniad i'r cynllun. Deallir yr effaith ar asedau yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Cadw (2011)⁶ Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy;
- Cadw (2017)⁷ Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru;
- Cadw (2017)⁸ Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru; a,
- Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (ClfA) (2014)⁹, Standard and guidance for desk-based assessment.

Mae effeithiau a nodir o dan 'adeiladu' yn ystyried yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r cynllun, fel cloddwaith a defnyddio offer a cherbydau adeiladu. Mae effeithiau a nodir o dan 'gweithredu' yn ystyried effeithiau presenoldeb seilwaith parhaol ac effeithiau sy'n gysylltiedig â chynnal y cynllun.

O fewn yr adroddiad hwn, caiff 'gwerth treftadaeth' asedau ei drafod; mae hyn yn cyfateb i 'arwyddocâd treftadaeth' asedau a nodir yn y canllawiau uchod. Defnyddir 'gwerth treftadaeth' yma i atal dryswch gydag 'arwyddocâd effeithiau'.

2.6 Rhagdybiaethau a Chyfyngiadau

Ni phrynwyd data HER yn llawn ar gyfer yr arfarniad hwn. Mae'r arfarniad hwn wedi defnyddio cofnodion HER sydd ar gael ar-lein at ddiben cyfeirio yn unig; gall y wybodaeth hon fod yn anghyflawn, yn anghywir neu wedi dyddio. At ddiben yr adroddiad hwn, fe'i defnyddiwyd i lywio'r waelodlin, ar y cyd ag adnoddau eraill sydd ar gael.

Yn aml, mae setiau data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys data HER sydd ar gael ar-lein, wedi'u seilio ar y cyfle ar hap am ymchwil sy'n gysylltiedig yn nodweddiadol â

⁶ Cadw (2011) Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. [Ar-lein] Ar gael yn: https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles_CY.pdf.

⁷ Cadw (2017) Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Heritage%20Impact%20Assessment%20in%20Wales%20CY.pdf>.

⁸ Cadw (2017) Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-04/Lleoliad%20Asedau%20Hanesyddol%20yng%20Nghymru.pdf>.

⁹ ClfA (2014) Standard and guidance for desk-based assessment. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.archaeologists.net/sites/default/files/ClfAS&GDBA_2.pdf

datblygu. Felly, lle ceir diffyg cofnodion, nid yw hyn o reidrwydd yn gysylltiedig â diffyg asedau treftadaeth.

Mae'r arfarniad o effeithiau yn Adran 5 yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar senario 'achos gwaethaf' ar gyfer dyluniad y cynllun. Gan nad oes dyluniad manwl yn orffenedig eto, mae'r adroddiad hwn yn rhagdybio y byddai'r cyfyngiadau isaf a bennwyd ym mhroses yr Amlen Gydsynio yn cael eu dilyn yn y dyluniad terfynol. Mae'r gofynion hyn, fel y maent yn perthyn i dreftadaeth ddiwylliannol, wedi'u hamlinellu yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

3 Gwaelodlin

Mae'r adran hon yn darparu gwaelodlin yr asedau treftadaeth ddiwylliannol yn ardal yr astudiaeth. Caiff asedau a drafodir yn fanwl yn yr adroddiad hwn eu dangos yn y ffigur yn Atodiad B. Mae'r holl asedau yn ardal yr astudiaeth yn cael eu disgrifio'n fanwl yn y rhestr yn Atodiad A.

3.1 Asedau Dynodedig

Fel y disgrifir ym Mhennod 3.3 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00), nid oes unrhyw asedau dynodedig o fewn y safle. O fewn ardal yr astudiaeth, ceir chwech o asedau treftadaeth dynodedig, yn cynnwys tair heneb gofrestrdedig a thri adeilad rhestredig (un gradd II* a dau gradd II). Amlinellir yr asedau hyn isod.

3.1.1 Henebion Cofrestredig

Mae Siambr Gladdu Trefignath (hefyd, Trefignaeth) yn heneb gofrestrdedig (Cadw: AN011; gweler Ffigur 3.1 isod). Fe'i lleolir tua 40m i'r gogledd-ddwyrain o'r safle. Mae'n dyddio o'r cyfnod Neolithig, y dywedir fel arfer ei fod wedi para o ryw 4000 i 2,300CC yn y Deyrnas Unedig¹⁰. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd amaeth, gan annog anheddu mwy parhaol gan arwain at hierarchaethau cymdeithasol newydd a chreu mathau newydd o heneb. Mae beddrodau siambr Neolithig yn henebion angladdol, sy'n cynnwys yn nodweddiadol o leiaf un siambr â waliau cerrig ar gyfer olion dynol. Fodd bynnag, ni ddeallir eu rôl yn y gymdeithas Neolithig yn llawn ac efallai nad y claddedigaethau hyn oedd eu prif ddiben. Mae amrywio rhanbarthol sylweddol yn yr henebion hyn, sydd i'w gweld ar draws llawer o'r Deyrnas Unedig o'r cyfnod Neolithig cynnar; yn aml, roedd carnedd yn gorchuddio'r rheiny yng ngogledd Cymru¹¹. Mae Trefignath yn nodweddiadol o'r arddull leol hon; fe'i gorchuddiwyd unwaith â charnedd, a fyddai wedi cynnwys y siambrau. Fodd bynnag, tynnwyd llawer o'r garnedd oddi yno yn y 18fed a'r 19eg ganrif at ddibenion fel adeiladu waliau cerrig a, heddiw, ar ffurf ôl troed y mae'r ased yn goroesi'n bennaf. Adferwyd y siambr yn rhannol ym 1980, yn dilyn cyfres o gloddiadau.¹² Heddiw, mae dwy o'r tair siambr yn sefyll, o ganlyniad i'r gwaith adfer hwn.

¹⁰ Historic England (2021), An introduction to Prehistoric England. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://www.english-heritage.org.uk/learn/story-of-england/prehistory/>

¹¹ Historic England (2018) Megalithic Chamber Tombs: Introductions to Heritage Assets. Swindon, Historic England. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://historicengland.org.uk/images-books/publications/iha-megalithic-chamber-tombs/heag211-megalithic-chamber-tombs/>

¹² Cadw (2021), Siambr Gladdu Trefignath. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=3247>.

Ffigur 3.1: Siambr Gladdu Trefignath



Ffynhonnell: Mott MacDonald (2021)

Adeiladwyd Trefignath fesul tri cham dros gyfnod defnyddio a barodd tua 1,500 o flynyddoedd. Mae'r cynharaf o'r tair siambr yn dyddio i oddeutu 3,750-3,500CC a gallai'r heneb fod wedi cael ei defnyddio hyd at oddeutu 2,250CC¹³. Felly mae defnyddio Trefignath yn cwmpasu'r cyfnod Neolithig bron yn gyfan gwbl a gallai ei defnydd fod wedi parhau tan yr Oes Efydd cynnar iawn. Roedd carnedd gron, fechan yn gorchuddio'r siambr gynharaf, ac estynnwyd y garnedd hon yn ddiweddarach yn garnedd hir a oedd yn gorchuddio'r siambrau ychwanegol¹⁴.

Ddiwedd y 1970au, datgelodd cloddio yn Nhrefignath y posibilrwydd fod safle'r beddrod yn gyfannedd cyn adeiladu'r heneb, oherwydd cafwyd hyd i falurion anheddiad, fel fflintiau a chrochenwaith, a thystiolaeth o leoedd tân¹⁵.

Mae'r ardal gofrestredig hefyd yn cynnwys yr ardal uniongyrchol o gwmpas yr olion sy'n sefyll, gan gynnwys ôl troed gwreiddiol yr heneb ac ardal y mae potensial iddi gynnwys olion archaeolegol sy'n gysylltiedig â'r beddrod.

Mae olion y beddrod siambr wedi'u lleoli ar frigiad creigiog sy'n creu pwynt uchel yn y topograffi lleol. Mae hyn yn nodweddiadol o feddrodau siambr Neolithig a gall fod yn perthyn i'r awydd i henebion allu cael eu gweld o bell. Saif o fewn cae bach, wedi'i amgáu i'r de gyda choed aeddfed ac wedi'i amgáu i raddau i'r gorllewin gyda gwrych isel. Mae'r golygfeydd sy'n ymestyn o Drefignath yn cynnwys tir amaethyddol cyfagos ond, hefyd yr A55 a datblygiad modern masnachol a diwydiannol cyfagos, yn enwedig y simnai dal ym Mhenrhos i'r gogledd. Mae golygfa allweddol dros dir sydd heb ei ddatblygu yn parhau tuag at Faen Hir Tŷ Mawr a Mynydd Twr y tu hwnt, fel y trafodir yn fanylach isod. Er bod datblygiad modern yn ymyrryd, mae rhyw ymdeimlad o heddwch a lloc gwledig yn parhau ar leoliad yr heneb, oherwydd y llystyfiant amgylchynol da a'i bellter o ddatblygiadau presennol. Er na ddeallir diben yr heneb yn llawn,

¹³ Cadw (2021), Siambr Gladdu Trefignath. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=3247>.

¹⁴ Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (2010), Parc Cybi: Y Darganfyddiadau? Beddrod Siambrog Trefignath. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.heneb.co.uk/parccybi/wtrefignath.html>.

¹⁵ Smith, C. A. and Lynch, F. M. (1987), Trefignath and Din Dryfol. The excavation of two megalithic tombs in Anglesey. Cambrian Archaeological Association.

mae'n rhesymol rhagdybio y gallai ymdeimlad o heddwch ar gyfer myfyrdod o ryw fath fod wedi llunio rhan o'i ddiben. Mae elfennau gwledig y lleoliad, y teimlad o fod wedi'i amgau i'r de ac i'r gorllewin i raddau, a golygfa tuag at Faen Hir Tŷ Mawr a Mynydd Twr yn helpu deall Trefignath a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at ei gwerth treftadaeth. Mae lleoliad y beddrod i'w weld isod yn Ffigur 3.2. Sylwch fod y trydydd llun yn llun o'r olygfa tuag at Faen Hir Tŷ Mawr a Mynydd Twr (y mae cwmwl yn ei guddio'n rhannol yma).

Ffigur 3.2: Lleoliad Siambr Gladdu Trefignath (gyda'r cloc, o'r uchaf ar y chwith: tua'r de, y dwyrain, y gogledd a'r gorllewin)



Ffynhonnell: Mott MacDonald (2021)

Mae i'r heneb werth treftadaeth am ei bod yn enghraifft brin sy'n goroesi o Feddrod Siambr Neolithig mewn cyflwr da, ac yn enghraifft gynrychioliadol o arddull leol yr henebion amrywiol hyn ac un a esblygodd yn raddol dros gyfnod defnyddio hir. Mae gwerth tystiolaethol i'w gael o'r adeiladwaith hwn sy'n goroesi, heblaw am y rhannau hynny o'r ased sydd wedi'u hadfer sydd, serch hynny, yn cynnig gwerth hanesyddol fel cynrychioliadau o sut olwg fyddai wedi bod ar yr ased ar un adeg. Mae dealltwriaeth o'r cyfnod Neolithig, gan gynnwys y defnydd ar Feddrodau Siambr, yn brin. Felly, gall henebion sy'n goroesi o'r cyfnod hwn gyfrannu'n amhrisiadwy at ein dealltwriaeth o'r cyfnod hwn a sut y gallai'r henebion hyn fod wedi cael eu defnyddio. Mae colli ei charnedd wedi lleihau'r gwerth rhywfaint; fodd bynnag, mae'r hyn sydd wedi goroesi o ôl troed y garnedd yn galluogi rhywfaint o ddealltwriaeth o'i ffurf wreiddiol. Mae gwerth hanesyddol iddi yn deillio o'i gallu i ddangos sut cafodd y dirwedd ei defnyddio yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Maen Hir Tŷ Mawr (Cadw: AN012) wedi'i lleoli o fewn ardal yr astudiaeth hefyd, tua 490m i'r gogledd-orllewin o'r safle. Mae Maen Hir Tŷ Mawr yn mesur 2.5m ac mae'n debygol iddo gael ei godi yn ei leoliad, ar bwynt fymryn yn uchel o fewn ei gyffiniau, yn ystod yr Oes Efydd¹⁶.

Mae'r olygfa o Drefignath i Dŷ Mawr a Mynydd Twr y tu hwnt yn cyfrannu at werth treftadaeth y ddwy heneb gofrestredig. Nodwyd bod gan feddrodau siambr a henebion Neolithig eraill berthynas â chyrrff wybrennol. Er enghraifft, mae gan Feddrod Siambr Newgrange yn Iwerddon siambr ganolog sy'n cael ei goleuo dim ond pan fydd yr haul yn codi adeg heuldro'r gaeaf¹⁷. Felly, mae'n bosibl y bu perthynas rhwng yr olygfa hon o Drefignath â'r haul yn machlud, sy'n disgyn y tu ôl i Fynydd twr bob dydd. Mae golygfa o'r maen hir tuag at y beddrod siambr yn fwy amlwg heddiw na'r olygfa o'r beddrod siambr tuag at y maen hir. Mae hyn yn cefnogi dehongliad bod y golygfeydd tuag at Drefignath wedi dylanwadu ar leoliad y maen hir diweddarach. Mae gan olygfeydd tua'r dwyrain o'r esgyniad yn y topograffi tuag at Drefignath a'r safle gymeriad rhannol wledig, er gwaethaf datblygiadau modern, o ganlyniad i gaeau amaethyddol, tir heb ei ddatblygu a choetir.

Ffigur 3.3: Yr olygfa o Dŷ Mawr tuag at Drefignath, tua'r dwyrain



Ffynhonnell: Addaswyd o Mott MacDonald (2021)

Saif Maen Hir Tŷ Mawr mewn cae amaethyddol sy'n dir pori, rhwng yr A55 a'r datblygiad modern o amgylch Parc Cybi. Fel arall, mae presenoldeb arhosfan fodern gyferbyn i lorïau, y Roadking Service Station, yn dominyddu ei leoliad. Mae'r lleoliad hwn i'w weld yn Ffigur 3.4 isod.

¹⁶ Cadw (2021), Ty-Mawr Standing Stone. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=530>.

¹⁷ Brú na Bóinne Visitor Centre (2007) Newgrange.com: Winter Solstice. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.newgrange.com/winter_solstice.htm.

Ffigur 3.4: Lleoliad Maen Hir Tŷ Mawr



Ffynhonnell: Addaswyd o Mott MacDonald (2021)

Mae gwerth treftadaeth Tŷ Mawr yn deillio o'i botensial i roi gwybod am y defnydd o'r dirwedd yn yr Oes Efydd a'i berthynas debygol â henebion cynhanesyddol eraill. Yn benodol, mae'n darparu gwerth tystiolaethol trwy fod yn enghraifft arbennig o dal o faen hir sydd wedi goroesi'n dda.

Mae'r cae amaethyddol a'r golygfeydd tuag at Drefignath yn cyfrannu'n gadarnhaol at werth treftadaeth yr ased, gan eu bod yn galluogi deall y lleoliad a ddewiswyd i godi'r heneb. Fodd bynnag, mae'r Roadking Service Station yn dominyddu'r cyffiniau uniongyrchol ac yn cyfrannu'n negyddol at leoliad yr ased. Mae to oren-goch prif adeilad y Roadking, lliwiau llachar y cerbydau HGV a goleuadau yn amharu ar y lleoliad a arferai fod yn wledig ac maent yn lleihau'r gallu i ddeall gwerth treftadaeth y maen hir yn y lleoliad hwn a fyddai, ar un adeg, wedi bod yn nodwedd amlwg yn y dirwedd o'i amgylch.

Mae trydedd heneb gofrestredig, sef Grŵp Cytiau Trearddur (Cadw: AN092), wedi'i lleoli tua 610m i'r de-ddwyrain o'r safle. Mae'r heneb yn cynnwys olion tri chylch cwt a lloc sy'n debygol o ddyddio i'r mileniwm cyntaf CC¹⁸. Mae parc carafanau statig, Parc Gwledig Bae Trearddur, a llystyfiant aeddfed yn gysylltiedig â hwn yn amgáu'r heneb. Mae ychydig o fryn tua'r gogledd yn ei sgrinio rhag y safle.

3.1.2 Adeiladau Rhestredig

Mae Melin Wynt Kingsland (hefyd Melin yr Ogorf neu St George's Mill) yn adeilad rhestredig gradd II* (Cadw: 5762) ar gyrion ardal yr astudiaeth, tuag 1.5 cilometr i'r gorllewin o'r safle. Codwyd y felin wynt yn wreiddiol rhwng 1820 a 1830 gan adeiladwr lleol o'r enw Hugh Hughes. Mae'r adeilad yn dŵr carreg 4 llawr, conigol, sydd wedi'i rendro a'i wyngalchu. Yn wreiddiol, byddai cap ac esgyll (hwyliau) wedi bod arno, ond fe'u tynnwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o beiriannau gwreiddiol y tu mewn o hyd¹⁹. Daw gwerth treftadaeth yr ased i raddau helaeth o'r ffaith bod y peiriannau mewnol wedi goroesi, sy'n beth prin. Fodd bynnag, mae ei leoliad i'r dwyrain yn cyfrannu hefyd at ei werth treftadaeth, sy'n helpu deall yr ased fel melin wledig. Mae'r lleoliad i'r gorllewin yn cynnwys ystadau tai modern ac nid ydynt yn cyfrannu at hyn. Mae'n dirnod lleol oherwydd ei uchder ac mae i'w weld dros lawer o'r dirwedd sydd o'i gwmpas.

¹⁸ Cadw (2021), Grŵp Cytiau Trearddur. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=256>.

¹⁹ Cadw (2021), Melin Wynt Kingsland. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=5762>.

Ffigur 3.5: Melin Wynt Kingsland, yn edrych tua'r dwyrain (chwith) a'r gorllewin (dde)



Ffynhonnell: Mott MacDonald (2021)

Tua 850m i'r gogledd-orllewin o'r safle y mae'r Bont restredig gradd II dros Reilffordd, gerllaw Ffermdy Tŷ Mawr Farmhouse (Cadw: 16526). Y bont un bwa hon, o waith maen, sy'n dwyn y llwybr cerdded dros y rheilffordd ac mae ganddi faen dyddio â '1847' arno²⁰. Mae lleoliad y bont yn gysylltiedig yn bennaf â choridor y rheilffordd ac mae seilwaith modern yr A55 yn ei datgysylltu â thir i'r de ac i'r dwyrain, lle y saif y safle.

Tua 730m i'r de o'r safle y mae adeilad rhestredig gradd II Cae Grugog (Cadw: 20075), sef tŷ mawr yn arddull celfyddyd a chrefft a adeiladwyd rhwng 1910 a 1920²¹. Mae'r tŷ wedi'i leoli ar fymryn o esgyniad, gyda golygfeydd i'r de tuag at Fae Trearddur. Mae ei lleoliad wedi'i amgylchynu fel arall gan dai o'r 20fed ganrif ac nid oes gan yr ased olygfeydd o'r safle nac i'r gwrthwyneb.

3.2 Asedau Heb eu Dynodi

Nodwyd tri ased heb eu dynodi o fewn ffiniau'r safle. Mae'r rhain oll yn perthyn i olion archaeolegol a gloddiwyd ac a gofnodwyd yn ystod gwerthusiad archaeolegol o'r safle, sydd wedi'u symud oddi yno ers tynnu priddoedd a brig o'r safle. Roedd y rhain yn olion o safle anheddu cynhanesyddol posibl (HER: 13930), adeilad Neolithig (HER: 31570) a chyfundrefn caeau ôl-ganoloesol (HER: 31610). Trafodir yr asedau hyn isod, yn Adran 3.3, sy'n trafod potensial archaeolegol y safle.

Nodwyd 57 ased ychwanegol o fewn ardal 500m yr astudiaeth, 56 ohonynt yn perthyn i olion archaeolegol claddedig. Nodwyd mwyafrif yr olion archaeolegol claddedig hyn yn ystod cloddiadau archaeolegol y tir o amgylch Parc Cybi yn ystod blynyddoedd 2000. Dangosant fod y tir o fewn ardal yr astudiaeth wedi'i anheddu o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw, gyda'r asedau'n amrywio o safleoedd anheddu cynhanesyddol i sychwyr grawn canoloesol ac ôl-

²⁰ Cadw (2021), Pont dros Reilffordd gerllaw Ffermdy Tŷ Mawr Farmhouse. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=16526>.

²¹ Cadw (2021), Cae Grugog. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=20075>.

ganoloesol. Disgrifir yr asedau hyn ymhellach yn Atodiad A.2 a thrafodir potensial archaeolegol y safle isod yn Adran 3.3.

Yr unig ased sy'n cynnwys olion sy'n sefyll yw olion beddrod siambr Neolithig tebygol arall 300m i'r de-ddwyrain o'r safle (HER: 2504, y'i gelwir yn Feddrod Siambr Trearddur o hyn ymlaen). Mae'r heneb yn cynnwys un llechfaen sy'n sefyll, gydag uchder o ryw 1.5m, a llechfaen gwastad wrth ei droed. Mae twmpath isel tua 0.5m i'r de-ddwyrain a cherrig ychwanegol o fewn yr un cae yn nodi ymhellach y gallai'r cerrig hyn fod yn olion beddrod siambr. Byddai dimensiynau'r siambr yn debyg i'r siambr leiaf yn Nhrefignath, ar sail y cerrig sy'n goroesi.

Yn debyg i Drefignath gyfagos, mae Beddrod Siambr Trearddur wedi'i leoli ar frigiad creigiog. Pan y'i hadeiladwyd yn wreiddiol, byddai wedi bod yn bosibl gweld golygfeydd dros Fae Trearddur a Chulfor Cymyran o'r ased, ond mae tai o'r 20fed ganrif wedi cyfyngu ar y golygfeydd hyn. Mae rhywfaint o dirwedd amaethyddol a gwledig pellach yn parhau i'r dwyrain o'r ased, ond mae simnai Penrhos yn dominyddu golygfeydd i'r cyfeiriad hwn hefyd. Mae gan yr ased olygfeydd hir tuag at Fynydd Twr. Mae'r golygfeydd hyn yn ymestyn dros y safle, sy'n sefyll rhwng yr ased a'r mynydd. Yn yr un modd â Threfignath, daw ei werth treftadaeth o dreftadaeth tystiolaethol a hanesyddol fel enghraifft sy'n goroesi o feddrod siambr Neolithig, sy'n dangos defnydd cynhanesyddol y dirwedd. Fodd bynnag, nid yw wedi goroesi cystal â Threfignath ac ni all y rhan fwyaf o bobl ddeall yn amlwg ei fod yn heneb cynhanesyddol. Mae ei oroesi gwael wedi lleihau ei werth treftadaeth tystiolaethol yn sylweddol, o gymharu â Threfignath. Er hyn, mae'n gynrychiolaeth eglurhaol o'r defnydd Neolithig o'r tir ym Mharc Cybi. Mae ei leoliad uniongyrchol a'i olygfeydd tuag at y dŵr (er yn gyfyngedig) a Mynydd Twr yn cyfrannu at werth treftadaeth yr ased. Mae'r rhain yn helpu deall y lleoliad a ddewisodd trigolion Neolithig Caergybi ar gyfer yr heneb.

3.3 Archaeoleg

Mae ardal Parc Cybi yn nodweddiadol gyfoethog o ran archaeoleg. Mae archwiliadau o'r ardal wedi darganfod tystiolaeth o'i anheddu'n gyson o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw. Mae dwysedd archaeoleg cynhanesyddol ac anheddu parhaus yr ardal yn anghyffredin ac mae rhai o'r nodweddion archaeolegol a ddarganfuwyd gerllaw'r safle wedi bod o bwysigrwydd cenedlaethol.

Er gwaethaf hyn, nid oes gan yr Ardal Ddatblygadwy botensial ar gyfer olion archaeolegol anhysbys. Mae'r safle wedi'i chloddio, ac eithrio brigiad creigiog ar ffin ddwyreiniol bellaf y safle a llystyfiant ar y cyrion, nad ystyrir ei fod yn rhan o'r Ardal Ddatblygadwy ac na fyddai'r cynllun yn effeithio arno. Ymchwiliwyd eisoes i archaeoleg o fewn y safle ac fe'i cofnodwyd fel rhan o raglen waith i baratoi ardal Parc Cybi i'w ddatblygu. Cloddiwyd gorllewin y safle mewn cyfnod o werthuso archaeolegol ym Mharc Cybi rhwng 2006 a 2010²². Cafodd gweddill y safle, ac eithrio'r brigiad creigiog, ei gloddio fesul dau gam yn 2020 gan Brython Archaeology CYF²³.

Yn nodweddiadol, roedd olion archaeolegol o fewn y safle o werth treftadaeth isel yn nodweddiadol ac roeddent yn mynd yn fwyfwy prin wrth symud tua'r gorllewin o fewn y safle. Yr eithriad oedd adeilad Neolithig (HER: 31570), a nodwyd yn ystod y gyfres gyntaf o ymchwiliadau, sef darganfyddiad o bwysigrwydd rhyngwladol posibl. Roedd hyn yn gysylltiedig â Siambr Gladdu Trefignath yn ôl pob tebyg, ond nid yw natur y cysylltiad hwn yn hysbys. Er y cofnodwyd yr ased ac y symudwyd yr olion yn ystod y gwaith cloddio hwn, gall presenoldeb blaenorol yr adeilad fod yn arwydd o berthynas hanesyddol rhwng y safle a Siambr Gladdu Trefignath. Credir bod y rhaglen hon o werthuso archaeolegol wedi symud ymaitth yr holl olion o fewn y safle.

²² Atkins (2011) Parc Cybi, Holyhead: post excavation assessment of potential report volume I. 954.

²³ Brython Archaeology CYF (2020) Land to the South of Parc Cybi, Holyhead: Report on Archaeological Evaluation Trenching. B2015.EVAL.REP.01.

4 Cyfyngiadau Dylunio yn gysylltiedig â Threftadaeth Ddiwylliannol

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am y cyfyngiadau ar gyfer dylunio'r cynllun, fel y maent yn berthnasol i dreftadaeth ddiwylliannol. Amlinellir y cyfyngiadau hyn yn yr Amlen Gydsynio. Mae hyn yn rhoi cyd-destun i'r Arfarniad dilynol o'r Effeithiau yn Adran 5, gan ei fod yn amlinellu'r senario 'achos gwaethaf' ar gyfer llunio dyluniad manwl terfynol y cynllun. Fel y disgrifir yn Adran 2.5, mae hwn yn llunio'r sylfaen ar gyfer yr Arfarniad o'r Effeithiau sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

4.1 Cyfyngiadau Treftadaeth Ddiwylliannol

Mae'r mesurau canlynol wedi'u hymgorffori yn y dyluniad i leihau effeithiau niweidiol y cynllun ar asedau treftadaeth ddiwylliannol. Dangosir y cyfyngiadau hyn hefyd yn Atodiad A yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (Cynllun Cyfyngiadau Amgylcheddol - BCP21-002-01-00)²⁴.

Tabl 4.1: Cyfyngiadau o'r Amlen Gydsynio sy'n berthnasol i Dreftadaeth Ddiwylliannol

| Enw | Manylion y Cyfyngiad | Perthnasedd i Dreftadaeth Ddiwylliannol |
|----------------------------|---|--|
| Ardal Ddatblygadwy | <p>Cyfyngir y ffurf adeiledig a'r llawr caled i'r ardal a amlinellir yn y Cynllun Cyfyngiadau Amgylcheddol.</p> <p>Diffinnir llawr caled fel heol, adeiladau ac unrhyw offer cysylltiedig. Rhagdybir nad yw glaswellt cyfnerthedig athraidd yn llawr caled. Nid yw'n cynnwys tirlunio.</p> | <p>Mae'r cyfyngiad hwn yn cyfyngu ffurf adeiledig y cynllun i ganol a gogledd-ddwyrain y safle. Byddai hyn yn helpu lleihau pa mor weladwy yw'r cynllun o'r rhan fwyaf o'r asedau treftadaeth a'r dirwedd sydd o'i amgylch trwy ddarparu digon o le am dirwedd er mwyn helpu i sgrinio'r elfennau adeiledig. Hefyd, mae'n grwpio elfennau adeiledig yn hytrach na'u gwasgaru, gan gyfrannu ymhellach at y gallu hwn i sgrinio'n effeithiol.</p> <p>Felly, byddai hyn yn helpu lleihau newid o fewn lleoliad asedau treftadaeth cyfagos, yn benodol, Siambr Gladdu gofrestredig Trefignath.</p> |
| Osgoi brigiad creigiog | <p>Ni ddylid datblygu o fewn ffin y brigiad creigiog</p> | <p>Mae'r brigiad ar ran ddwyreiniol y safle yn sgrinio'r safle o'r gorllewin, gan felly leihau'r gallu i weld y cynllun o Siambr Gladdu Trefignath. Byddai osgoi datblygu o fewn y brigiad creigiog hefyd yn cadw'r rhan hon o leoliad yr asedau, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at werth treftadaeth yr ased ac yn lleihau newid i leoliad yr asedau yn gyffredinol.</p> |
| Uchafswm uchder yr adeilad | <p>Byddai cyfyngiad ar uchder adeiladau mewn ardaloedd a ddangosir yng nghynllun yr Amlen Gydsynio (BCP21-006-05-00)²⁵.</p> <p>Byddai ardaloedd parth yn nodi uchafswm uchder adeiladau/AOD ar waith fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">Byddai uchderau adeiladau Parth A (cornel uchaf gogledd-ddwyrain y safle) hyd at 23m AODByddai uchderau adeiladau Parth B (yn uniongyrchol i'r de-orllewin o Barth A) hyd at 28m AOD | <p>Dwyrain y safle, ac yn enwedig cornel y gogledd-ddwyrain, sy'n fwyaf gweladwy o Siambr Gladdu Trefignath. Byddai rheoli uchderau adeiladau o fewn yr ardal hon yn lleihau effaith weledol adeiladau ac, felly, yn lleihau'r newid yn lleoliad Siambr Gladdu Trefignath.</p> |

²⁴ Mott MacDonald (2021) North Wales Border Control Post Environmental Constraints Plan. Medi 2021. Rhif y Ddogfen: BCP21-002-01-00.

²⁵ Mott MacDonald (2021) SDO Consenting Envelope. Medi 2021. Rhif y Ddogfen: BCP21-006-05-00

| Enw | Manylion y Cyfyngiad | Perthnasedd i Dreftadaeth Ddiwylliannol |
|---|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Byddai uchderau adeiladau Parth C (rhannau gorllewinol a deheuol y safle) hyd at 33 AOD <p>Wrth i'r dylunio fynd yn ei flaen, byddai uchderau gwirioneddol adeiladau'n cael eu gostwng, lle bynnag y bo'n bosibl.</p> | |
| Gorffeniadau'r ffurf adeiledig | Bydd yr Asesiad Lliwiau Amgylcheddol perthnasol yn llywio palet lliw, a dim ond lliw o'r palet hwn fydd lliw'r adeilad ²⁶ . | Trwy orffen adeiladau mewn lliw priodol i'r dirwedd gyfagos, gall yr adeiladau fod yn fwy encilio. Felly, byddai hyn yn lleihau'r newid o fewn lleoliad asedau treftadaeth cyfagos, yn enwedig yr asedau hynny sydd agosaf at y safle, fel Siambr Gladdu Trefignath. |
| Triniaethau Ffensys/Ffiniau | Bydd gorffeniad ffensys diogelwch mewn lliw addas a fyddai'n briodol i amwynder gweledol yr ardal ehangach. Byddai'r Asesiad Lliwiau Amgylcheddol yn llywio hyn. | Byddai hyn yn sicrhau bod ffensys diogelwch, sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun, yn encilio'n weledol i'r amgylchoedd. Felly, byddai hyn yn lleihau newid o fewn lleoliad asedau treftadaeth, yn enwedig Siambr Gladdu Trefignath. |
| Tirwedd | Rhaid plannu byffer tirwedd 10m o rywogaethau coed cymysg brodorol rhwng y bwnd coed presennol a'r ardal ddatblygadwy i sgrinio'r datblygiad o olygfeydd o'r safle o'r Gorllewin-De-Gorllewin rhag derbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tuag at ran ddwyreiniol y safle, bydd y byffer tirwedd yn cynnwys dwy elfen linol, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol gyda choed. Yn gyfan gwbl, byddai'r ddwy elfen ynghyd, wrth unrhyw bwynt penodol, yn darparu byffer tirwedd o 10m o leiaf. Cedwir bwnd presennol y dirwedd a'i wella, gan roi rhywfaint o sgrinio yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol cynnar, hyd nes bod y byffer tirwedd yn sefydlu, fel y nodir ar luniad 100100943-MMD-PC-XX-DR-AR-0012 yr Amlen Gydsynio. | Byddai tirweddun lleihau'r effaith ar asedau treftadaeth o ganlyniad i newid yn eu lleoliadau, trwy leddfu golwg y cynllun. Byddai hyn yn cyfrannu at leihau'r effaith ar Siambr Gladdu Trefignath. Nid yw rhai ardaloedd o lystyfiant presennol a gadwyd ar y ffin wedi llwyddo i sgrinio'n lliniarol yn effeithiol. Mae'r plannu wedi methu, oherwydd amodau tir gwael, amlygiad i'r elfennau a diffyg cynnal a chadw priodol i sicrhau llwyddiant. Byddai cynnal a chadw'r tirwedd newydd yn sicrhau llwyddiant y plannu ac effaith gadarnhaol barhaus y tirwedd hwn. |
| Cynnal a chadw'r plannu yn yr hirdymor | Rhaid cynnal a chadw holl blannu'r dirwedd a bwnd presennol y dirwedd yn rheolaidd i sicrhau bod y stoc coed yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus a bydd yn destun rhaglen sefydlu, cynnal a chadw, barhaus a hirdymor (o leiaf 15 mlynedd) o weithredoedd rheoli coetir. Byddai gwaith plannu newydd yn digwydd yn flynyddol pe byddai unrhyw blannu'n methu a chedwir y gwaith plannu'n rhydd rhag chwyn ac yn ddiogel, gyda ffens da byw sy'n cadw cwningod allan yn ei amddiffyn. Byddai gwaith plannu'r coetir a'r bwnd presennol yn destun cynllun rheoli coetir am gyfnod cyfan y Safle Rheoli Ffiniau. | |
| Glaswellt cyfnerthedig athraidd/llawr caled | Byddai glaswellt cyfnerthedig athraidd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y ffordd fynediad mewn | Mae'r ardal yng nghornel gogledd-orllewinol y safle yn arbennig o sensitif i gyflwyno llawr caled oherwydd agosrwydd Siambr Gladdu Trefignath a |

²⁶ Richards Moorehead & Laing Ltd (2021) Environmental Colour Assessment for the Proposed Inland Border Facility, Plot 9, Parc Cybi, Caergybi, Mai 2021. Rhif y Ddogfen: 100100943-MM-ENV-000-RP-NW-0009

| Enw | Manylion y Cyfyngiad | Perthnasedd i Dreftadaeth Ddiwylliannol |
|----------------------------|--|---|
| | <p>argyfwng yng nghornel gogledd-ddwyreiniol y safle.</p> <p>Byddai ffensys pren yn sgrinio ardal gwarantín, gerllaw'r cornel gogledd-ddwyreiniol.</p> <p>Dangosir y rhain yn y Cynllun Cyfyngiadau Amgylcheddol.</p> | <p>thremlin uniongyrchol rhwng yr ased hwn a'r rhan hon o'r safle, nad yw'r plannu yn ei sgrinio.</p> <p>Byddai dyluniad y cynllun yn yr ardal hon yn cael ei liniaru trwy ddefnyddio glaswellt cyfnerthedig athraidd, neu ddeunydd tebyg, i leihau gwelededd y ffordd fynediad mewn golygfeydd o'r siambr gladdu. Yn yr un modd, byddai ffensys pren yn helpu i guddio'r ardal gwarantín. Byddai hyn yn lleihau'r newid o fewn lleoliad Siambr Gladdu gofrestredig Trefnath.</p> |
| Goleuo | <p>Ni fydd uchder colofnau golau'n fwy na 15m. Bydd lwcs a threiddiad goleuadau'n cael eu cyfyngu i'r Ardal Ddatblygadwy o fewn y safle. Byddai unedau goleuadau yn gyfeiriadol, â chwfl ac mor isel ag y bo'n ymarferol. Byddai dyluniad y cynllun yn sicrhau nad yw golau'n treiddio'n sylweddol i'r tir cyfagos, y tu allan i ffin y safle.</p> | <p>Mae'r safle a'r ardal astudio o'i gwmpas eisoes yn destun ymyrraeth golau, yn enwedig o'r goleuadau stryd ar hyd Ffordd Gyswllt Parc Cybi, y Roadking Service Station a'r Premier Inn. Fodd bynnag, prin yw'r llygredd golau yn Siambr Gladdu Trefnath ac mae'n bosibl gwerthfawrogi'r olygfa o fachlud yr haul, sydd o werth treftadaeth i'r ased (gweler Adran 3.1 uchod). Trwy leihau'r treiddiad golau o'r safle, gellir cyfyngi'r newid yn lleoliad yr ased.</p> |
| Cyfyngiadau ar lefelau sŵn | <p>Rhaid cynllunio bod sŵn o offer ar y safle yn bodloni meini prawf Safon Brydeinig 4142²⁷.</p> <p>Awgrymir monitro sŵn ar ffin y safle er mwyn monitro a fydd y lefelau'n fwy na'r hyn sydd yn y meini prawf.</p> | |
| Lliniaru sŵn | <p>Darperir camau lliniaru sŵn yn unol â'r argymhellion ar gyfer y cynllun o ran sŵn. Mae sgrinio wrth ffynhonnell y sŵn ac atal cerbydau rhag gadael yr injan i redeg yn enghreifftiau o gamau lliniaru y gall fod eu hangen. Gall sgrinio gynnwys ffensys rhag sŵn, mor agos â phosibl at ffynhonnell y sŵn.</p> | <p>Byddai lleihau sŵn o fewn y safle yn helpu cynnal ymdeimlad o heddwch yn lleoliad Siambr Gladdu Trefnath, sy'n cyfrannu at ei werth treftadaeth.</p> |

Addaswyd o'r Amlen Gydsynio, 2021

²⁷ Safon Brydeinig 4142:2014+A1:2019 "Methods for rating and assessing industrial and commercial sound", 2019

5 Arfarniad o Effeithiau

Mae'r arfarniad hwn o effeithiau yn amlinellu effeithiau adeiladu a gweithredu'r cynllun ar asedau treftadaeth ddiwylliannol.

5.1 Adeiladu

Mae'r adran hon yn amlinellu effeithiau adeiladu'r cynllun ar dreftadaeth ddiwylliannol.

Ni fyddai'r un ased treftadaeth a amlygwyd o fewn y safle neu ardal yr astudiaeth yn gweld effaith ffisegol, uniongyrchol o ganlyniad i adeiladu'r cynllun.

Mae potensial y bydd presenoldeb peiriannau adeiladu a llygredd sŵn a golau cysylltiedig yn effeithio ar asedau treftadaeth o ganlyniad i newid o fewn eu lleoliadau. Ni fyddai newid mewn lleoliad yn effeithio ar fwyafrif yr asedau treftadaeth o fewn ardal yr astudiaeth yn ystod y gwaith adeiladu. Mae llawer o asedau wedi'u lleoli'n ddigon pell o'r safle fel na fyddai mwy o draffig a sŵn yn effeithio ar eu lleoliad o gwbl, neu byddai hyn yn fach iawn ac ni fyddai'n effeithio ar werth treftadaeth yr asedau.

Mae Siambr Gladdu Trefignath wedi'i lleoli'n agos i'r safle. Mae llygredd sŵn a golau presennol, o'r Roadking Service Station a'r A55, eisoes yn amharu ar leoliad yr ased. Er na ddeallir pwrpas yr heneb yn llawn, gellir rhagdybio'n rhesymol fod heddwch ei lleoliad hanesyddol wedi cyfrannu at y ffordd y bwriadwyd ei defnyddio, ac yn y ffordd y caiff ei defnyddio ar hyn o bryd, a bod hyn felly'n cyfrannu at ei gwerth treftadaeth. Felly, mae cadw rhywfaint o heddwch o fewn ei lleoliad yn helpu gwerthfawrogi'r rhan hon o'i defnydd hanesyddol. Yn ystod gwaith adeiladu'r cynllun, byddai tarfu pellach ar y lleoliad hwn, gan felly leihau'r gallu i werthfawrogi'r ased yn y cyd-destun hwn ac effeithio'n niweidiol ar ei werth treftadaeth. Fodd bynnag, ni fyddai'r effaith hon yn sylweddol, yn bennaf oherwydd y datblygiad presennol o fewn ei leoliad.

Ni fyddai adeiladu'r cynllun yn effeithio ar asedau eraill. Mae sŵn a thraffig sylweddol eisoes yn bresennol o fewn lleoliad Maen Hir Tŷ Mawr, o'r Roadking Service Station yn y cyd-destun hwn; felly, ni fyddai adeiladu'r cynllun yn cyflwyno newid sylweddol i leoliad yr ased hwn. Ni fyddai effaith ar asedau treftadaeth eraill oherwydd eu pellter o'r safle.

Fel arfer, byddai potensial i waith adeiladu effeithio ar olion archaeolegol; fodd bynnag er bod cefndir archaeolegol cyfoethog i ardal Parc Cybi, mae'r holl dir yn yr Ardal Ddatblygadwy wedi'i stripio yn ystod rhaglen flaenorol o gofnodi archaeolegol. Felly, mae olion archaeolegol o fewn yr Ardal Ddatblygadwy wedi'u tynnu oddi yno neu eu cwteuo, ac nid oes potensial archaeolegol i'r tir hwn. Felly, mae'n hynod annhebygol y byddai adeiladu'r cynllun yn arwain at unrhyw effaith ar olion archaeolegol. Mae hyn yn cynnwys y tri ased heb eu dynodi a nodwyd o fewn ffiniau'r safle yn yr HER, gan fod y gwaith archaeolegol blaenorol wedi tynnu'r rhain oddi yno.

5.2 Gweithredu

Mae'r adran hon yn amlinellu effeithiau gweithredu'r cynllun a phresenoldeb seilwaith parhaol ar dreftadaeth ddiwylliannol.

Mae potensial i'r cynllun arwain at effaith ar Siambr Gladdu Trefignath o ganlyniad i'r newid o fewn ei leoliad. Mae'r elfennau gwledig sy'n goroesi yn lleoliad Trefignath yn helpu gwerthfawrogi'r ased, yn enwedig ei ddeall fel tirnod o fewn tirwedd gynhanesyddol Caergybi. Mae'r golygfeydd tuag at Fynydd Twr heibio i Dŷ Mawr a'r golygfeydd tuag at fachlud yr haul yn cyfrannu at ddeall yr ased hefyd (gweler Ffigur 5.1 isod).

Ffigur 5.1: Siambr Gladdu Trefignath yn berthynol i Ffin Ddangosol y Safle



Ffynhonnell: Mott MacDonald (2021), yn cynnwys data Cadw (2021) ar henebion cofrestredig, yn destun © Hawlfraint y Goron, yn cynnwys delweddau o'r awyr © ESRI (2021).

Byddai'r cynllun yn dwyn cyfleuster Safle Rheoli Ffiniau i leoliad yr ased hwn, gydag adeiladau, llawr caled a phresenoldeb cerbydau HGV a llygredd sŵn a golau cysylltiedig. Byddai hyn yn lleihau'r gallu i ddeall Trefignath fel rhan o dirwedd wledig, agored yn hanesyddol ac yn lleihau'r gallu i ddeall yr ased fel yr oedd gynt yn heneb dirnod ar dir uchel. Felly, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar werth treftadaeth yr ased. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau dylunio a ddisgrifir yn Adran 4, a fyddai'n lleihau ymyrraeth weledol y cynllun o fewn lleoliad yr ased, yn cyfyngu ar yr effaith hon. At hynny, byddai'r clawdd drain gwynion sy'n amgáu'r ased rywfaint i'r dwyrain (gweler Ffigur 5.1 uchod) yn lled leihau gwelededd y cynllun o'r ased. Mae llygredd sŵn a golau presennol, o'r Roadking Service Station a'r A55, eisoes yn amharu ar leoliad yr ased. Yn ogystal, ni fyddai'r cynllun yn effeithio ar yr olygfa allweddol tuag at Faen Hir Tŷ Mawr, Mynydd Twr y tu hwnt a'r caeau bugeiliol rhyngddynt. Felly, byddai gweithredu'r cynllun yn cael effaith niweidiol ar Siambr Gladdu Trefignath, ond byddai llawer o'i werth tystiolaethol a hanesyddol i'w weld o hyd; ni fyddai'r effaith yn arwyddocaol.

Mae potensial i'r cynllun effeithio ar Faen Hir Tŷ Mawr o ganlyniad i newid o fewn ei leoliad, yn arbennig o berthnasol felly i olygfeydd tuag at Siambr Gladdu Trefignath. Mae'r dremlin rhwng Siambr Gladdu Trefignath, Maen Hir Tŷ Mawr a Mynydd Twr yn cyfrannu at werth treftadaeth yr ased. Mae lleoliad Tŷ Mawr yn fwy trefol a datblygedig na lleoliad Trefignath; fodd bynnag, mae gan olygfeydd tua'r dwyrain o'r maen hir o'r esgyniad yn y topograffi tuag at Drefignath a thuag at y safle gymeriad gwledig oherwydd y caeau, y tir pori a'r plannu, ynghyd â phresenoldeb cyfyngedig seilwaith adeiledig. Byddai cyflwyno'r cynllun i'r rhan hon o'r lleoliad yn lleihau amlygrwydd Trefignath mewn golygfeydd pell o'r maen hir. Byddai seilwaith adeiledig sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn amharu ar welededd y siambr gallu ac, felly, yn lleihau'r gallu i ddarllen a deall y rhyngwelededd a'r cysylltiad rhwng y maen hir â'r siambr gladdu. Fodd bynnag, mae datblygiad presennol sylweddol o fewn lleoliad yr ased sy'n agosach o lawer na'r safle. At hynny ni fyddai'r cynllun yn tarfu ar y dremlin uniongyrchol rhwng yr asedau. Felly, byddai gweithredu'r cynllun yn effeithio'n andwyol ar Faen Hir Tŷ Mawr, ond ni fyddai'r effaith hon yn arwyddocaol.

Mae'n annhebygol y byddai unrhyw effaith ar Felin Wynt restredig gradd II* Kingsland o ganlyniad i weithredu'r cynllun. Er bod gan Felin Wynt Kingsland olygfeydd pell dros y dirwedd, mae topograffi a datblygiadau rhyngol yn cyfyngu ar olygfeydd uniongyrchol o'r safle. Yn ogystal, mae'r datblygiad rhyngol hwn eisoes yn trefoli ac yn moderneiddio lleoliad gwledig hanesyddol yr ased. Ni fyddai datblygu'r cynllun yn gwaethygu'r amhariad presennol hwn ar leoliad yr ased. Felly, ystyrir na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effaith ar Felin Wynt Kingsland ac, felly, ni fyddai'r effaith hon yn arwyddocaol.

Ni fyddai effaith ar y tri ased dynodedig arall a nodwyd o fewn ardal yr astudiaeth, gan nad yw eu lleoliadau yn ymestyn i'r safle, fel y disgrifir yn adran 3.1.

Mae potensial y bydd gweithredu'r cynllun yn effeithio ar yr olion sy'n sefyll o Feddrod Siambr Trearddur, sydd heb ei dynodi, trwy newidiadau i'w lleoliad. Mae'n bosibl bod golygfeydd tuag at Fynydd Twr wedi cyfrannu at ddewis y safle ar gyfer yr heneb a'u bod yn helpu i gyfrannu at gysylltu'r beddrod siambr hwn â Threfignath gyfagos. Byddai'r cynllun yn cyflwyno seilwaith adeiledig a fyddai'n tarfu ar yr olygfa rhwng yr ased a'r mynydd. Byddai hyn yn lleihau'r gallu i ddeall y berthynas bosibl hon ac, felly, yn effeithio'n andwyol ar werth treftadaeth Beddrod Siambr Trearddur. Fodd bynnag, mae cyflwr olion y beddrod hwn sydd wedi goroesi yn wael ac ni ellir adnabod yn uniongyrchol eu bod yn olion beddrod siambr. Felly, byddai amharu ar yr olygfa hon yn effeithio fymryn yn unig ar y gallu i ddehongli'r olion hyn. At hynny, nid oes tarfu ar olygfeydd dros y dyfroedd amrywiol ac ymddengys bod y rheiny wedi bod cyn bwysiced, ô leiaf, â'r beddrod hwn. Felly, rhagwelir y byddai effaith andwyol ar Feddrod Siambr Trearddur, sydd heb ei dynodi, ond ni fyddai'r effaith hon yn arwyddocaol.

6 Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi asesu'r effeithiau tebygol y byddai adeiladu a gweithredu'r cynllun, sef Safle Rheoli Ffiniau ym Mhlot 9 Parc Cybi, Caergybi, yn eu cael ar asedau treftadaeth ddiwylliannol. Mae wedi darganfod nad oes effeithiau arwyddocaol tebygol ar asedau treftadaeth ddiwylliannol.

Byddai adeiladu'r cynllun yn arwain at effaith andwyol ar Siambr Gladdu Trefignath, sy'n heneb gofrestredig, o ganlyniad i newid o fewn ei leoliad. Ni fyddai'r effaith hon yn effaith arwyddocaol.

Byddai gweithredu'r cynllun yn arwain at effaith andwyol ar Siambr Gladdu Trefignath a Maen Hir Tŷ Mawr, ill dwy'n henebion cofrestredig, ac ar Feddrod Siambr Trearddur, sy'n ased heb ei ddynodi. Ni fyddai'r effeithiau hyn yn effeithiau arwyddocaol oherwydd y mesur dylunio gorau posibl a lliniaru a amlinellir yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi nodi unrhyw effeithiau tebygol eraill ar dreftadaeth ddiwylliannol yn sgil adeiladu neu weithredu'r cynllun.

Atodiadau

A. Rhestr Asedau Treftadaeth

A.1 Asedau Treftadaeth Dynodedig

Tabl A.1: Rhestr Asedau Treftadaeth Dynodedig o fewn Ardal yr Astudiaeth

| Enw | Dynodiad | Cyfeirnod | Disgrifiad |
|--------------------------|--------------------|-----------|--|
| Siambr Gladdu Trefignath | Heneb Gofrestredig | AN011 | <p>Mae'r heneb yn cynnwys olion beddrod siambr, sy'n dyddio o'r cyfnod Neolithig. Mae'r heneb fegalithig adfeiliedig wedi'i lleoli ar frigiad creigiog hir, sydd bron yn foel. Fe'i hadeiladwyd fesul tri cham gwahanol rhwng tua 3750 a 3500CC ac mae'n bosibl y buodd yn weithredol tan oddeutu 2250 CC. Difrodwyd y strwythur yn sylweddol yn negawd olaf y ddeunawfed ganrif a chafodd y garnedd a amgylchynodd y cerrig ei thynnu i raddau helaeth ym 1870. Fe'i cloddiwyd ym 1977-79, cyn cael ei chyfnerthu a'i hadfer i'r cyhoedd ei gweld.</p> <p>Adeiladwyd yr heneb dros wasgariad o falurion anheddiad, gan gynnwys fflintiau a chrochenwaith. Dyddiwyd hyn i oddeutu 3100 CC trwy fesur radio carbon. Cam cyntaf yr heneb oedd siambr fechan mewn carnedd hyd at 4.0m ar draws. Roedd yn agor tua'r gogledd trwy gyntedd byr. Yn yr ail gam, adeiladwyd siambr fwy ar ochr ddwyreiniol yr heneb cam cyntaf, yr oedd ei charnedd wedi'i chynnwys mewn carnedd siâp lletem llawer mwy o faint, gyda wal cerrig sych yn ei diffinio. Agorodd y siambr newydd i flaengwrt cilannog ar y pen dwyreiniol. Yn y trydydd cam, adeiladwyd siambr newydd ym mlaengwrt yr ail gam ac ymestynnwyd y garnedd o'i chwmpas. Roedd gan y siambr olaf hon borthfeini tal, dros 2.0m o daldra, ar yr ochr ddwyreiniol. Darganfuwyd darnau o asgwrn yn y siambr ddwyreiniol hon.</p> <p>Mae'r heneb hon o bwysigrwydd cenedlaethol o ran ei photensial i wella'n gwybodaeth am gladdu a defodau cynhanesyddol. Mae'r heneb yn ôl pwysig tirwedd angladdol a defodol gynhanesyddol ac mae iddi botensial archaeolegol arwyddocaol o hyd, gyda thebygolrwydd cryf fod celciau claddu neu ddefodau cyfan a thystiolaeth amgylcheddol a strwythurol yn bresennol, gan gynnwys arwyneb tir cynhanesyddol claddedig. Gall beddrodau siambr fod yn rhan o glwstwr mwy o henebion a gall eu gwerth fel grŵp ymestyn eu pwysigrwydd ymhellach.</p> <p>Mae'r ardal gofrestredig yn cynnwys yr olion a ddisgrifir ac ardal o'u chwmpas, y gellid disgwyl i dystiolaeth berthynol oresi ynddi.</p> |
| Maen Hir Tŷ Mawr | Heneb Gofrestredig | AN012 | <p>Mae'r heneb yn cynnwys olion maen hir sydd, yn ôl pob tebyg, yn dyddio o'r Oes Efydd. 2.5m yw uchder y maen hir, mae'n 1.5m o led ar ei waelod ac mae ei drwch yn 0.4m. Saif ar bwynt uchel yn lleol, mewn cae ychydig yn donnog 640m i'r gogledd-orllewin o siambr gladdu Trefignath. Mae'r holl olygfeydd o'i gwmpas yn dda, ond mae golygfa arbennig o dda o Fynydd Twr.</p> <p>Mae'r heneb o bwysigrwydd cenedlaethol o ran ei photensial i wella'n gwybodaeth am arferion claddu a defodau cynhanesyddol. Mae'n ôl pwysig o dirwedd angladdol a defodol gynhanesyddol ac mae iddi botensial archaeolegol arwyddocaol o hyd. Mae tebygolrwydd cryf fod celciau claddu neu ddefodau cyfan yn bresennol, ynghyd â thystiolaeth amgylcheddol a strwythurol. Mae'r maen hir yn rhan o glwstwr mwy o henebion cynhanesyddol ac mae'r gwerth hwn fel grŵp yn ymestyn ei bwysigrwydd ymhellach.</p> <p>Mae'r ardal gofrestredig yn cynnwys ardal gylchol 6m diamedr â'r maen yn ganolbwynt iddi, y gellid disgwyl i dystiolaeth berthynol oresi ynddi.</p> |
| Gwrp Cytiau Trearddur | Heneb Gofrestredig | AN092 | <p>Mae'r heneb yn cynnwys olion anheddiad amgaeedig gyda nifer o gylchoedd cytiau sydd, yn ôl pob tebyg, yn dyddio o'r mileniwm cyntaf CC. Mae tri chwt crwn, y mae eu diamedrau yn 15.5m, 4m a 2.5m, ynghyd â darnau o waliau lloc, wedi'u lleoli</p> |

| Enw | Dynodiad | Cyfeirnod | Disgrifiad |
|---|------------------------------|-----------|---|
| | | | <p>ar fryncyn glaswelltog, sydd wedi'i leoli o fewn maes carafanau. Gellir gweld y cytiau ar ffurf pantiau cylchog, gydag olion waliau o gerrig bychain o dan y dywarchen.</p> <p>Mae'r heneb o bwysigrwydd cenedlaethol o ran ei photensial i wella ein gwybodaeth am aneddiadau cynhanesyddol. Mae iddi botensial archaeolegol arwyddocaol o hyd, gyda thebygolrwydd cryf fod nodweddion a chelciau archaeolegol cysylltiedig yn bresennol. Gellid disgwyl i'r strwythurau eu hunain gynnwys gwybodaeth archaeolegol am gronoleg a thechnegau adeiladu.</p> <p>Mae'r ardal gofrestredig yn cynnwys yr olion a ddisgrifir a'r ardaloedd o'u cwmpas, y gellid disgwyl i dystiolaeth berthynol oroesi ynddynt.</p> |
| Melin Wynt Kingsland | Adeilad rhestredig Gradd II* | 5762 | <p><i>Hanes</i></p> <p>Adeiladwyd tua 1820-30; codwyd gan yr adeiladwr lleol Hugh Hughes. Tynnwyd y cap a'r esgyll yn ystod yr Ail Ryfel Byd rhag ofn eu bod yn rhy amlwg. Ers hynny, caewyd Melin Wynt Kingsland ond mae ei pheiriannau yno o hyd. Fe'i gelwyd gynt hefyd yn Felin yr Ogorf neu St George's Mill.</p> <p><i>Y tu allan</i></p> <p>Melin wynt â thŵr conigol; adeiladwyd o garreg gyda rendrad gwyngalch diweddar. Mae'n 4 llawr gydag agoriadau pengswar a ffenestri cwarelau bach wedi'u trefnu'n 4 haen reolaidd ar yr ochrau gorllewinol a dwyreiniol; rhwng y ffenestri ar y llawr cyntaf y mae pyrth gyferbyn â'i gilydd a oedd, yn dibynnu ar ba ochr yr oedd yr esgyll, yn agor ar lwyfannau (sydd wedi'u colli erbyn hyn, ond mae distiau pren yno o hyd). Mae drws astellog yn fynedfa ar y llawr gwaelod ar yr ochr ddwyreiniol. Mae olion wal derfyn a adeiladwyd i gadw gwartheg draw.</p> <p><i>Y tu mewn</i></p> <p>Prif bwysigrwydd y felin wynt hon yw bod lefel eithriadol o'r peiriannau gwreiddiol wedi goroesi, llawer ohonynt yn agos at fod yn gweithio. Gan ddechrau ar Lawr y Bin ar y brig, lle y gall yr olwyn gadwyn wreiddiol a yrrodd y cap fod yn goroesi; mae 3 hopran wedi'u cadw, ynghyd â'r rhaffau codi sachau a ddaeth â'r grawn i'r lefel hon; coronrod haearn. Islaw y mae'r Llawr Garreg lle mae'r hopranau'n bwydo i fframiau'r pin ac ar gafnau carreg – mae 2 o'r 3 carreg (a wnaed o garreg leol) yn gyflawn gyda'u peiriannau cysylltiedig, ond mae peiriannau'r drydedd carreg wedi'u torri'n rhannol. Mae enghreifftiau prin yn parhau ar y llawr cyntaf o beiriannau peillio yn y fan a'r lle, lle'r oedd y blawd yn cael ei ddosbarthu. Mae peiriannau eraill sy'n goroesi yn cynnwys taclau, rheolwyr cyflymder cerrig a gyriannau eilaidd.</p> |
| Pont dros Reiffordd ger Ffermyd Tŷ Mawr Farmhouse | Adeilad rhestredig Gradd II | 16526 | <p>Mae ei harddull yn debyg i Bont Cytir gyfagos, ac mae'r dyddiad "1847" arni. Pont gwaith maen un bwa. Rwbwl llwyd gyda naddiadau cerrig rhywiog bwff. Mae gan y bwa segmentol feini bwa garw, felly hefyd y pileri ar ddau ben y bont. Band carreg rywiog ar lefel y llawer. Parapet â chopin gwastad, carreg rywiog; meini capan sgwâr ar y pileri.</p> |
| Cae Grugog | Adeilad rhestredig Gradd II | 20075 | <p><i>Hanes</i></p> <p>O ddechrau'r 20fed ganrif, adeiladwyd tua 1910-20; credir iddo gael ei ddylunio gan bensaer o Gaer.</p> <p><i>Y tu allan</i></p> <p>Tŷ mawr yn arddull Celfyddydau a Chrefft. Mae dau lawr gyda nenlofftydd a chynllun hirsgwar, gydag adain un llawr ddiweddaraf wedi'i gosod ar ongl sgwâr i'r cefn ar yr ochr dde, gyda feranda amgaaedig wrth gilfach talcen yr ochr chwith. Waliau â rendrad brasblastr uwchlaw plinthiau gwaith maen rwbwl; carreg debyg yn architraf y fynedfa. To hanner aris gyda llechi gwyrdd bach; bondo ymestynnol gyda cherrig wedi'u mowldio ar y talcennau blaen a chornisiau wedi'u mowldio i'r cefn. Simneiau hirsgwar tal wedi'u rendro gyda llechi, capiau talcen cerrig; simnai grib ganolog a simneiau talcen, gyda'r simnai ar y chwith â thalcenigau ar y blaen a'r cefn. Dau dalcen sydd flaenaf wrth y fynedfa, ychydig oddi ar y canol, gyda'r to yn ysgubo'n isel dros ffenestr grom sengl i'r chwith. Mae'r fynedfa allan o'r canol yn y talcen ar y chwith: architraf rwbwl gyda bwâu segmental uwch i borth pengswar, gyda drws pren stydenog â cholfachau strap enfawr ac un golau gwydr dellt. Ffenestr risiau myliwn a thrawslath 3 haen, â chwarelau bach, yng nghanol y talcenni, ac ar bob ochr y mae ffenestri adeiniog 3 rhan â chwarelau bach</p> |

| Enw | Dynodiad | Cyfeirnod | Disgrifiad |
|-----|----------|-----------|---|
| | | | <p>ar y llawr cyntaf. Mae ffenestri llai 1 a 3 rhan ar y llawr gwaelod, a ffenestr grwn fechan iawn o dan ffenestr y grisiau. Mae paneli siâp diemwnt cilannog yn addurno pennau'r talcenni. Ar y ffenestr grom ar y chwith, mae llinell y to yn ysgubo i lawr dros y ffenestri Ffrengig tal y mae 4 gris i fyny atynt, gyda chaeadau lwfer a ffenestr do yn y talcen arris ar y to uchod, gyda ffenestri adeiniog 2 ran, 8 cwarel. Mae cilfach y talcen ar y chwith yn cynnwys ffenestri adeiniog cwarelau bychain un rhan tal, gyda ffenestri plwm tenau wrth naill ochr i frest y simnai a ffenestr grwn gyda barrau gwydr wedi'i gosod mewn cilfach fwa pengrwn i'r dde o frest y simnai. Mae'r cefnlun yn edrych dros y môr ac mae ganddo ystod 5 ffenestr gytbwys, sydd bron yn gymesur. Mae'r ffenestri uwch oll yn ffenestri adeiniog â chwarelau bach 3 a 4 darn; mae ffenestri tebyg i'r llawr gwaelod (mae'r ffenestri canolog ac ar y dde bellach wedi'u hadnewyddu heb wydro mewn chwarelau bach), ond mae ffenestr grom i'r dde o'r canol, gyda drysau Ffrengig. Mae gofod cyfartal rhwng pedair ffenestr do arris, dalcennog yn y to uwchlaw, gyda ffenestri adeiniog 2 ran.</p> <p><i>Y tu mewn</i></p> <p>Mae'r fynedfa'n arwain i ragystafell â theils, gyda drws hanner gwydrog sy'n arwain i'r cyntedd echelinol y tu hwnt. Cynlluniwyd y tŷ gyda'r prif ystafelloedd i'r cefn a'r ystafelloedd gwasanaeth i'r blaen. Mae grisiau tro cam i'r dde o'r fynedfa gyda byrddau cynnal agored ac estyll canol trydylog, wedi'u siapio, gyda balystrau ffyn wedi'u gosod yn groeslinol bob hyn a hyn i gynnal dolen wedi'i mowldio; mae pyst ystlys sgwâr yn nodi pob esgyniad, ac mae ganddynt baneli cilannog a chapiau wedi'u mowldio. Yn y prif ystafelloedd i'r cefn, mae lleoedd tân cil pentan mawr, gyda ffrâm bren a chypyrddau a phaneli i'r ochrau; yn yr ystafell fyw ar y pen chwith, mae lle tân haearn bwrw mawr gydag addurn garlant a drych hanner cylch uwch ei ben. Mae gan yr ystafelloedd gwasanaeth gypyrddau gwreiddiol a silffoedd o lechi; mae'r system glychau i'w gweld yn y gegin o hyd. Mae eu lleoedd tân gwreiddiol i'w gweld o hyd yn y rhan fwyaf o ystafelloedd gwely'r llawr cyntaf a'r ystafelloedd yn y nenlofft; lleoedd tân haearn bwrw llai ydynt gydag addurn blodau, un gyda cheriwb yn y gosodiad canol a'r teils amgylchynol gwreiddiol yn y brif ystafell wely. Mae'r teils a'r ffitiadau gwreiddiol i'w gweld o hyd yn yr ystafell ymolchi ac ym mhantri'r gweision; mae'r sincipiau gwreiddiol yn y rhan fwyaf o ystafelloedd y llawr uchaf o hyd. Mae'r drysau'n rhai gwreiddiol, 2 banel gyda physt drws a chapanau drysau wedi'u mowldio, ac mae cypyrddau a ffitiadau gwreiddiol i'w gweld o hyd mewn llawer o ystafelloedd.</p> |

Ffynhonnell: Cadw (2021) (Trwy: [Asedau Hanesyddol Cadw – Map Ar-lein \(cadwpublic-ui.azurewebsites.net\)](https://www.cadwpublic-ui.azurewebsites.net/))

A.2 Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi

Mae'r asedau hynny mewn **print bras** wedi'u lleoli o fewn y safle.

Tabl A.2: Rhestr o Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi o fewn Ardal yr Astudiaeth


| New | HER | NGR | Math o Safle |
|--|--------------|-------------------|---|
| Twmpath Llosg, Cae-glas | 31805 | SH26018076 | Twmpath Llosg Cynhanesyddol |
| Siambwr Gladdu, Trearddur | 2504 | SH2596580048 | Beddrod Siambwr Cynhanesyddol |
| Safle Cynhanesyddol Posibl, Tŷ Mawr | 13930 | SH25688040 | Safle Anheddu Cynhanesyddol |
| Pyllau, Parc Cybi | 31580 | SH2578880747 | Safle Anheddu Cynhanesyddol / Safle Anheddu o'r Oes Efydd |
| Strwythur, Parc Cybi | 31576 | SH2575880700 | Strwythur Cynhanesyddol |
| Strwythur, Parc Cybi | 31581 | SH257438074 | Strwythur Cynhanesyddol / Safle Anheddu o'r Oes Efydd |
| Strwythur, Parc Cybi | 31578 | SH2577980726 | Strwythur Cynhanesyddol / Safle Anheddu Cynhanesyddol |

| New | HER | NGR | Math o Safle |
|---|--------------|-------------------|--|
| Strwythur, Parc Cybi | 31579 | SH2580680715 | Strwythur Cynhanesyddol / Safle Anheddu Cynhanesyddol |
| Adeilad pren hirsgwar Neolithig, Parc Cybi | 31570 | SH25748053 | Adeilad Neolithig / Anheddiad Neolithig |
| Pwll, Parc Cybi | 76097 | SH2570480652 | Pwll Neolithig |
| Pwll, Parc Cybi | 76099 | SH2573880610 | Pwll Neolithig |
| Grŵp Pyllau, Parc Cybi | 31573 | SH2567580781 | Clwstwr Pyllau Neolithig |
| Gwrp Pyllau, Parc Cybi | 31572 | SH25698062 | Clwstwr Pyllau Neolithig |
| Pyllau, Parc Cybi | 74831 | SH2579280723 | Clwstwr Pyllau Neolithig |
| Strwythur, Parc Cybi | 74830 | SH2556780785 | Strwythur Neolithig |
| Cistgladdiad, Posibl, Trefignath | 81341 | SH25748067 | Cist o'r Oes Efydd |
| Pwll, Parc Cybi | 76098 | SH2571080628 | Pwyll o'r Oes Efydd |
| Tŷ Crwn, Parc Cybi | 31588 | SH2566280795 | Tŷ Crwn (Domestig) o'r Oes Efydd |
| Pyllau, Parc Cybi | 31598 | SH2572280654 | Clwstwr Pyllau o'r Oes Haearn / Clwstwr Pyllau Rhufeinig |
| Tai Crwn, Parc Cybi | 31595 | SH2568480870 | Tŷ Crwn (Domestig) o'r Oes Haearn |
| Terfyn Caeau, Parc Cybi | 31594 | SH2562680726 | Terfyn Cae Rhufeinig / Terfyn Cae o'r Oes Haearn |
| Lle Tân, Parc Cybi | 31599 | SH2572380638 | Lle Tân Rhufeinig / Safle Anheddu o'r Oes Haearn |
| Anheddiad, Parc Cybi | 31596 | SH2566580765 | Anheddiad Rhufeinig |
| Llwybr, Parc Cybi | 31597 | SH2565880762 | Llwybr Rhufeinig |
| Mynwent Cist, Parc Cybi | 31600 | SH2564580835 | Mynwent o'r Canoloesoedd Cynnar / Mynwent Rufeinig |
| Sychwr Grawn, Parc Cybi | 76101 | SH2567180776 | Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd Cynnar |
| Sychwr Grawn, Posibl, Parc Cybi | 81343 | SH2567880708 | Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd Cynnar |
| Sychwr Grawn, Parc Cybi | 31602 | SH2563880831 | Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd / Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd Cynnar |
| Sychwr Grawn, Parc Cybi | 31604 | SH2565780667 | Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd / Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd Cynnar |
| Sychwr Grawn, Parc Cybi | 31602 | SH2565980851 | Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd / Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd Cynnar |
| Sychwr Grawn, Parc Cybi | 31603 | SH2567380819 | Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd / Odyn Sychu Grawn o'r Canoloesoedd Cynnar |
| Ffos Derfyn, Posibl, Tŷ Mawr | 36269 | SH2527980548 | Ffos Derfyn Ôl-ganoloesol |
| Llawr Cobls, Bae Trearddur | 74468 | SH25938018 | Llawr Cobls Ôl-ganoloesol |
| Ceuffos, Parc Cybi | 31612 | SH2556880815 | Ceuffos Ôl-ganoloesol |

| New | HER | NGR | Math o Safle |
|---|--------------|---------------------|--|
| Ceuffos, Parc Cybi | 31613 | SH2557480735 | Ceuffos Ôl-ganoloesol |
| Lloc, Parc Cybi | 31619 | SH2562580850 | Lloc Ôl-ganoloesol |
| Safle Fferm Trefignath, Trearddur | 70620 | SH25798066 | Fferm Ôl-ganoloesol |
| Safle Bwthyn Pen y Lôn Cottage, Parc Cybi | 14588 | SH2557780798 | Fferm Ôl-ganoloesol / Fferm ac Adeiladau Ôl-ganoloesol |
| Safle Fferm Trefignath, Trearddur | 13929 | SH2591780676 | Fferm ac Adeiladau Ôl-ganoloesol / Fferm Ganoloesol |
| Terfynau Caeau, Parc Cybi | 13925 | SH255807 | Terfyn Cae Ôl-ganoloesol |
| Terfyn Cae, Posibl, Tŷ Mawr | 36273 | SH2561380854 | Terfyn Cae Ôl-ganoloesol |
| Draen Cae, Tŷ Mawr | 36268 | SH2546080679 | Draen Cae Ôl-ganoloesol |
| Draen Cae a Ffos, Tŷ Mawr | 36271 | SH2556980770 | Draen Cae Ôl-ganoloesol |
| Draen Cae, Tŷ Mawr | 36272 | SH2572880880 | Draen Cae Ôl-ganoloesol |
| System Gaeau, Parc Cybi | 31608 | SH2564880868 | System Gaeau Ôl-ganoloesol |
| System Gaeau, Parc Cybi | 31610 | SH2580680437 | System Gaeau Ôl-ganoloesol |
| Pyst gât, Trefignath | 81342 | SH2591280688 | Postyn Gât Ôl-ganoloesol |
| Tyddyn-uchaf, Trearddur | 36496 | SH25938020 | Tŷ Ôl-ganoloesol |
| Ffordd, Lon Towyn Capel | 13926 | SH25578086 | Ffordd Ôl-ganoloesol |
| Llwybr, Treddaniel i Tyddyn Bach, Trearddur | 36497 | SH26168040 | Llwybr Ôl-ganoloesol |
| Ffynnon, Parc Cybi | 31614 | SH2559180837 | Ffynnon Ôl-ganoloesol |
| Caer Danddaearol Fodern, Trefignath, Caergybi | 36495 | SH2591080489 | Caer Danddaearol Fodern |
| Adeilad, i'r Gogledd-ddwyrain o, Tyddyn-uchaf | 71181 | SH2615480355 | Adeilad Anhysbys |
| Adeilad, i'r Gogledd-ddwyrain o, Tyddyn-uchaf | 71183 | SH26168035 | Adeilad Anhysbys |
| Ardal Gobls, Parc Cybi | 18407 | SH25558067 | Llawr Cobls Anhysbys |
| Ffos, Cae Glas | 34746 | SH2605380603 | Ffos Anhysbys |
| Gwrthglawdd, Parc Cybi | 29737 | SH25338065 | Gwrthglawdd Anhysbys |
| Gosodiadau Cerrig, Trefignath | 14587 | SH2573480622 | Gosodiad Cerrig Anhysbys |
| Ffynnon, i'r Gogledd-ddwyrain o, Tyddyn-uchaf | 71179 | SH2611080340 | Ffynnon Anhysbys |
| Ffynnon, i'r Gogledd-ddwyrain o, Tyddyn-uchaf | 71177 | SH2619680470 | Ffynnon Anhysbys |
| Twmpath Llosg, Cae-glas | 31805 | SH26018076 | Twmpath Llosg Cynhanesyddol |

Ffynhonnell: Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (Trwy <https://archwilio.org.uk/her>)

B. Ffigur yr Asedau Treftadaeth a Drafordwyd



Legend

- Site Boundary
- 500m Study Area
- 1.5km Study Area
- Listed Building
- Grade
- I
- II*
- II
- Scheduled Monument
- Approximate Area of Trearddur Chambered Tomb

© Mott MacDonald Ltd. This document is issued for the party which commissioned it and for specific purposes connected with the captioned project only. It should not be relied upon by any other party for any other purpose, or containing any error or omission which is due to an error or omission in data supplied to us by other parties. Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020

| | | | | | | | | | | | | | |
|--|---|---------------------------------------|-----------------|---------------|------------------|--------------|-------------------------------|--------------|-------------|--|------------------------|--------------------|------------------------|
| | Mott MacDonald House 8-10 Sydenham Road Croydon, CR0 2EE United Kingdom T +44 (0)20 8774 2000 F +44 (0)20 8681 5706 W mottmac.com | Llywodraeth Cymru Welsh Government | Client | Rev 01 | Date 12/05/21 | Drawn IGD | Description First revision | Ch'k'd KL | App'd JW | Title Heritage Assets discussed in Appendix B | Drawn I Gray-Davies | Checked K Luker | Approved J Williams |
| | Drawing Number 100100943-MM-ENV-000-DW-NW-XX | | Security SEC | Status PRE | Rev P1 | | | | | | | | |

C:\Users\Gra89447\Documents\ArcGIS\Wales EUX\North Wales\Reference Map CH Assessment.mxd

